# Y LLINYN ARIAN

## Cylchgrawn Capel Salem,Caernarfon. Hydref 2022

**Diolchgarwch 2022**




**Gweddi'r Hydref**
**(O wefan Roots)**

Mae rhai sydd wrth eu bodd efo'r tymor yma Arglwydd,
Mae'r cynhaeaf yn dod, mae'r nosweithiau yn byrrhau,
Mae'n braf bod yn y tŷ; yn glyd dan flanced gynnes,
A digon o raglenni newydd ar y teledu.
Diolch i ti Arglwydd am yr Hydref.

Ond i eraill, mae'r tymor yn dywyll am fwy nag un rheswm;
Mae'r dyddiau rhy fyr a'r nosweithiau rhy hir;
Mae rhai yn unig, a dim cysur ar gael
Mewn ystafell wag,
Mae rhai yn bryderus am fynd allan yn y tywyllwch,
Pryder sy'n gallu caethiwo.
Gweddiwn Arglwydd dros bawb sy'n dioddef wrth i'r Hydref gyrraedd.

I rai, mae hwn yn amser o setlo lawr am sbel;
Setlo i ddiwedd y flwyddyn, setlo'r enaid.
I eraill mae'n gyfnod aniddig
Wrth i'r cysgoion ddisgyn.
Arglwydd tynn ni i gyd i fewn i dy gysgodfa
A gad i ni fyw yng nghynesrwydd dy gariad. AMEN



## GAIR GAN Y GWEINIDOG



Ydi – mae'r Hydref wedi cyrraedd. Er ambell ddiwrnod mwyn a chyfnodau braf, fe wyddon ni fod y tymhorhau wedi troi a'n bod ar drothwy misoedd oer y flwyddyn. Ond er ei bod yn oeri, mae 'na rywbeth prysur a chyffrous am yr Hydref. Mae'n fis lliwgar – gyda gwyrddni'r Haf yn troi yn gymanfa gynnes o liwiau. Mae garddwyr a'r rhai sy'n ddigon ffodus i gael ambell goeden ffrwythau yn yr ardd yn prysur yn gwneud yn siwr fod pob pwmpen neu frocoli neu afal wedi ei gasglu er mwyn gwneud sityni neu gawl. Mae anifeiliaid bach y goedwig a'r caeau hefyd yn brysur yn paratoi am yr oerni drwy gasglu bwyd a pharatoi'r ffae ar gyfer cwsg hir y Gaeaf. Tri anifail sy'n gaeaf-gysgu yng ngweldydd Prydain; yr Ystlum, y draenog a'r llyg (doormouse). Tydy'r wiwer ddim yn cysgu – casglu bwyd er mwyn peidio gorfod gadael ei ffae yn yr oerfel mae'r wiwer; call iawn dduda i!

Ac wrth gwrs, mae tymor yr Hydref yn dymor y Diolchgarwch. Fe ddywedwn ni bob blwyddyn pa mor bwysig ydy diolch yn gyson, ac fe geisiwn ein gorau i wneud hynny drwy'r flwyddyn; gwerthfawrogi yr holl bethau sydd gennym sy'n gwneud bywyd yn gyfforddus i ni. Ond mae'n dda cael cyfnod i ganolbwyntio ar ddiolch ac ystyried yr holl fendithion gawn ni mewn bywyd.

Ond allwn ni ddim diolch heb gofio. Am beth fyddwn ni'n cofio? Mi fyddwn ni'n cofio eleni eto ein bod yn byw mewn byd anheg lle mae gan ganran fechan o boblogaeth y byd lawer gormod nag sydd ei angen arnynt tra fod gymaint heb ddim. Mi fyddwn ni'n cofio'n arbennig eleni am bawb yn ein cymunedau sy'n ofni rhoi'r gwres ymlaen oherwydd y cynnydd sylweddol mewn costau ynni. Gall byw mewn tŷ oer effeithio ar iechyd a lles gymaint o bobl. Byddwn yn cofio am y miliynau sy'n byw lle mae rhyfel a thrais a'r effaith ddinistriol ar eu bywydau.

Wrth i ni ddathlu'r Diolchgarwch eleni eto, diolchwn i Dduw am y cread a gweddiwn y bydd adnoddau ein byd yn cael eu rhannu'n deg rhwng holl bobl y byd ac y byddwn yn parchu'r greadigaeth drwy ei gwarchod a'i diogelu er lles pawb.

**HUNODD.**
Yn mis Mai bu farw Mr J.Merfyn Hughes, Hafod, Ffordd Fictoria . Cydymdeimlwn â'i briod Mrs Vivian Hughes a'r plant Sian, Gareth,Bryn a'u teuluoedd .

**COLLI PERTHNASAU AGOS**
**Meddyliwn am :**
Mr Leigh a Mrs Eleri Roberts, Tredelerch ym marwolaeth mam Eleri . Meddyliwn hefyd am eraill yn yr eglwys sydd wedi colli ffrindiau agos a pherthnasau.

**COLLI FFRIND DA I'R ACHOS**
Meddyliwn am deulu y diweddar Barchedig Trefor Jones, Craig Menai fu'n weiniodog ar gapel Engedi, Caernarfon cyn ei ymddeoliaid. Bu'n arwain ad-doliad yn Salem nifer o weithiau a bu'n ffrind da i'r achos . Fe'i cofir nid yn unig am ei lais cyfoethog ond fel gwas da a ffydddlon i'w Arglwydd . Cynhaliwyd gwasanaeth o ddiolchgarwch i ddathlu ei fywyd yng nghapel Seilo, dydd Gwener , 12 Awst . Cymerwyd rhan yn yr oedfa gan un o weinidogion Salem (Ron Williams) .Teimlodd hi'n fraint aruthrol . Meddyliwn am ei briod Rhoda, Geraint y mab a'i briod Sioned a holl aelodau'r teulu.

'***Mae amser wedi ei bennu i bopeth …. Amser i alaru.'***. Llyfr y Pregethwr

**MEDDYLIWN AM Y RHAI A FU YN YR YSBYTY .**

**Miss Nerys Jackson,**
**Mr Dilwyn Hughes,**
**Mrs Lorna Billighurst ,**
**Mr George Jones,**
**Mrs Nancy Griffiths ,**
**Mrs Gwenllian Roberts ,**
**Mr Alun Jones,**
**Mrs Edwina Parry,**
**Mr Ronald Williams**
**Mrs Edwina Parry,**
**Mr Ronald Williams**
**Mrs Carol Davis**
**Mr Arthur a Mrs Jane Wilding,**
**Mr Rhys a Mrs Vera Prytherch,**
**Mrs Mary Christine Jones**
**Mrs Rhiannon Roberts,**
**Mrs Margaret Hamilton ,**

Meddyliwn am ein haelodau sydd **MEWN CARTREFI PRESWYL**
Cartref Marbryn Caernarfon : Mr Gareth Lee.
Cartef Golwg y Wyddfa, Llanberis : Mrs Gweneirys Jones.
Cartref Gwynfa, Caernarfon : Miss Nerys Jackson
Cyflwynwn ein cyfarchion cynhesaf i chi ac i'r rhai sy'n gaeth i'w cartref



**BEDYDD .**



Yng ngwasanaeth bore Sul 22 Mai, bedyddiwyd Greta Alaw, merch Sioned a Dylan Owen, Y Berllan, Bontnewydd. Medrwn ddweud 'O'r diwedd' gan mai hwn oedd y pedwerydd cynnig i drefnu dyddiad . Pwysleisiwn mae nid y teulu oedd yn gyfrifol ond y Pandemig .Yn yr oedfa derbyniwyd Sioned yn aelod o eglwys Salem. Erbyn hyn mae aelod arall wedi cyrraedd y teulu ac anfonwn ein llongyfarchiadau i'r teulu ar enedigaeth Nedw Gwyn, brawd bach i Greta ac ŵyr newydd i Carys Owen.

**LLONGYFARCHIADAU**
Mr John a Iola Grisdale , Y Glog, Ffordd Bethel ar ddathlu eu priodas Aur
Mr Arthur a Mrs Jane Wilding , Bryn Dyfi ar ddathlu eu priodas Ddeiamwnt ,
Linda Hunt ( gynt o Lluest Wen) Pen y Garth ar ei phriodas yn Eglwys St James, Bangor i Mr Christopher Anthony Hunt . Dymunwn yn dda iddynt yn eu cartref newydd : Bron yr Aur, 21 Brookhurst Close, Bromborough, Wirral, .

Sara Ann Williams a Mr Huw Gareth Jones ,14 Llys Meirion ar enedigaeth Huw Morgan Eirwyn Jones ac i Bethan a Glyn yn Nain a Taid am y tro cyntaf .
Bethan a Rhodri Owen, Bron y Gaer, Ffordd Bethel ar enedigaeth Osian , brawd i Alys Grug ac ŵyr newydd i Carys Owen .
Kate a Huw Geraint Jones , 16 Forest Rd, Caerdydd ar enedigaeth Gruffydd Huw ac ŵyr newydd i Alun a Haf .
Cara a David Parry , 7 Gwel y Bugail, Deiniolen ar enedigaeth Gruffydd Dewi Parry ac i Mrs Pat Parry yn Nain am y tro cyntaf .
Manon a Carwyn Owen, ar enedigaeth Elsi , chwaer i Tomos, Gwen Elin a Ifan ,Tyddyn Meinsier , Groeslon, ac ŵyr newydd i Carys Owen
**CROESO I AELODAU NEWYDD**
Yn ystod y Pandemig ( ar Zoom ) croesawyd Mrs Iona Hughes , Glynderi, 6 Llwyn Ceirio, Caernarfon ac yn oedfa'r Cymun bore Sul 4 Medi cawsom gyfle i'w chroesawi yn y capel.

## DOD YN AELOD CYFLAWN




Yn oedfa Gymun bore Sul y Pasg derbyniwyd pedwar o'n o'n hieuenctid yn aelodau cyflawn o'r Eglwys Gristnogol ac yn aelodau llawn o'r gynulleidfa sy'n cyfarfod yn Salem . Bu'r Pandemig yn gyfrwng i rwysto'r oedfa ddigwydd ynghynt a gwneud y dosbarth derbyn yr hiraf yn hanes yr eglwys! Y bobl ifanc oedd Alis Glyn Tomos, Borth Wen, Ael y Garth, William a Gruffydd Bebb, Cynfal Lon Ddewi a Dafydd Gwydion, Cwm Idwal, Ffordd Fictoria. Cyflwynwyd copiau o Feibl.net i bobl ifainc iddynt gan yr Eglwys

## *SUL DIOLCHGARWCH : 16 HYDREF 2022*




Ar y Sul bydd cyfle i'r plant /ieuenctid ddod a ffrwythau neu flodau i'r oedfa . Fe'u rhennir i aelodau hŷn y capel a'r rhai sydd mewn cartrefi gofal. Bydd cyfle hefyd i dderbyn y bocs 'Pringles' roddwyd dechrau Medi i gasglu darnau 5,10 neu 20 ceiniog . Bydd arian y blychau'n mynd i Apel Diolchgarwch Cymorth Cristnogol . Derbyniwyd neges gan Llinos Roberts, trefnydd Cymorth Cristnogol yn y Gogledd yn ddiweddar yn dweud ***:'Yn dilyn y sycher gwaethaf mewn 40 mlynedd, mae miliynau o bobl yn Nwyrain Affrica yn wynebu bygythiad newyn. Mae miliynau'n cymryd camau difrifol er mwyn goroesi, gyda chnydau sy wedi methu, anifeiliaid yn marw, prinder dŵr a newyn drwg iawn. Os gwelwch yn dda cyfrannwch y Cynhaeaf hwn.***







**OS DYMUNWCH GYFRANNU CYSYLLTWCH A MR IESTYN ROBERTS , TRYSORYDD CLWB PLANT A IEUENCTID SALEM**





## CASGLIAD DIOLCHGARWCH. ( SUL 16 Hydref)

Yn ogystal ag offrwm wythnosol, **gwneir dau gasgliad arbennig yn** Salem bob blwyddyn sef Casgliad y Gwellianniau ym Mis Mai a Chasgliad Diolchgarwch yn mis Hydref. Y ffordd hwylusaf i gyfrannu at Gasgliad y DIOLCHGARWCH eleni (neu unrhyw gasgliad arall) yw drwy drosglwyddiad banc gan ddefnyddio'r manylion isod:

**Côd y Banc i'w dalu 40-16 -02**

**Rhif y cyfrif i'w dalu 70724556 .**

**Enw'r Cyfri: Salem Congregational Chapel**

**COFIWCH** roi eich enw a rhif aelodaeth fel cyfeirnod os gwelwch yn dda. Mae hefyd yn bosib i anfon **siec** i'r trysorydd: Mr Alun Jones, Gwyddfan, 22 Llys Meirion, Caernarfon LL55 1LE neu defnyddio **amlen** gan roi eich manylion. **Apeliwn i bob aelod ymateb i'r Apel eleni.**

## OEDFA SEFYDLU




Llongfarchiadau mawr i'r Parchg Dylan Rhys ar gael ei sefydlu yn weinidog i'r Arglwydd Iesu Grist yn eglwysi'r Tabernacl, Pen-y-bont ar Ogwr a'r Tabernacl, Porthcawl . Offrymwyd yr Urdd Weddi yn y gwasanaeth gan ei Weinidog ( Ron Williams) trwy gyfrwng Zoom a phregethwyd gan ei gyfaill y Parch Carwyn Siddall, Llanuwchlyn. Dymunwn yn dda i Dylan yn ei ofolaeth newydd gan weddio am fendith Duw ar ei weinidogaeth.

## CLWB YR IFANC A'R YSGOL SUL




.Cynhelir y Clwb Ieuenctid nesaf Nos Sul 23 Hydref , 6-7 o'r gloch. Bydd y Clwb ar gyfer pobol ifanc oed Blwyddyn 7,8 a 9 ac yn cyfarfod bob pythefnos.

Er mai Salem a Seilo sy'n trefnu'r Clwb bydd ar agor i unrhyw berson ifanc. Plis rhannwch y neges gyda'r bobl ifanc rydych yn eu hadnabod!

Cynhelir yr Ysgol Sul ar fore Sul gan gychwyn yn yr oedfa am 10 o'r gloch .Os gwyddoch am unrhyw blentyn fyddai'n hoffi ymuno efo'r Ysgol Sul yn Salem, cofiwch ddweud fod croeso mawr i unrhyw un!

**Yng nghyfarfod Blynyddol GISDA yng Nghorffennaf eleni anrhydeddwyd ein Gweinidog ( Ron Williams) ar achlysur ei ymddeoliaid o fwrdd GISDA wedi 37 mlynedd o wasanaeth . 'Roedd yn un o'r rhai fu'n gyfrifol gydag eraill o sefydlu Gisda. Cafodd andros o sioc yn y cyfarfod pan gyflwynwyd llun a cherdd o waith Ifor ap Glyn iddo. Dymuna'r Gweinidog ddiolch i'r Prifardd ac i Fwrdd Gisda am weithred garedig.**

**Y Gŵr sydd â Gisda'n ei galon (i Ron Williams,)**

Nid aeth efe o'r tu arall heibio,
- y gŵr sydd â Gisda'n ei galon-
ond arhosodd yn hytrach hanner einioes
yn herio anghyfiawnder, drwy hybu a helpu,
drwy ymgeleddu'r rhai heb do, heb dân.

Y gŵr sydd â Gisda'n ei galon
fu'n gadarn ei gadeiryddiaeth,
yn saernïo dadl yn dawel,
yn llifio problemau, llyfnu anawsterau,
gan asio trawstiau croes, er creu to.

Deallai fod parch wrth gael drws ffrynt,
fod gobaith yn goleuo'r ffenestri,
wrth roi'r allweddi mewn llaw ifanc;
gwyddai fod gwerth i'w efengyl ymarferol,
mai 'oedfa' gydol wythnos yw'r Dre,
a 'gwasanaeth' gydol oes.

Y gŵr sydd â Gisda'n ei galon
a'n bendithiodd â blynyddoedd lu
o fugeilio'r defaid di-gorlan.
A diolchwn yn daer am ddiwydrwydd ffyddlon
y gŵr fydd â Gisda, hyd byth yn ei galon.
***Ifor ap Glyn 20.7.22***

***Elusen a swyddfeydd yng Nghaernarfon , Blaenau Ffestiniog a Phwllheli yw GISDA a'i gwaith yw darparu cefnogaeth a chyfleoedd i bobl ifanc fregus sydd rhwng 16-25oed . Am fanylion o waith Gisda , ewch i'w Safwe : www.gisda.org/***



# EISTEDDFOD 2023
## Llŷn ac Eifionydd



Nos Fercher, 14 Medi yng Nghapel Salem raddodwyd darlith ar hanes Teulu Gwern Gof, Capel Curig gan Mr Alun Roberts. Ymdrech bersonnol Alun oedd y noson i godi arian yn enw Capel salem, Caernarfon i'r Eisteddfod Genedlaethol yn 2023. I'r rhai oedd yn adnabod mam Alun; Mrs Megan Roberts, enw ei chartref yn Rhes Cwstenin, Caernarfon oedd Gwern Gof,. Mae elw'r noson yn cynyddu'n wythnosol! Y cyfanswm ar hyn o bryd yw £540.
Diolchwn i Alun am yr holl waith paratoi fu i'r noson .




Mae Hafan yn brosiect newydd yn y dref dan adain Cyngor Eglwysi'r Dref . *Bydd Hafan yn brosiect sydd yn cynnig amser, pob wythnos, i bobl ddod i ymdawelu, i fyfyrio, i oleuo cannwyll, i ddod o hyd i ryw dawelwch o brysurdeb bywyd, i gael clust i wrando, i gael cwmni falle. Bydd Hafan ar agor pob prynhawn Dydd Mawrth rhwng 12 a 3 yng Nghapel y Maes. Cychwynnwyd dechrau'r Haf ac mae criw bach yn gwirfoddoli i eistedd yn y capel a croesawu unrhyw un sy'n dod i fewn. Os ydych yn awyddus i wirfoddoli, cysylltwch efo Mererid; nid yw'n ymrwymiad mawr—rhyw un prynhawn bob 6-8 wythnos.*

***TARO MEWN***

*Mae Taro Mewn yn parhau i gyfarfod am 10:30 bob bore Mawrth yn y festri. Mae'n gyfle am gwmni a sgwrs gyda Munud i Feddwl am 11. Os nad ydych wedi bod o'r blaen—peidiwch a bod yn swil—dewch draw!*

***Cofier fod oedfa bore yn cael ei darlledu dros zoom gan ddilyn y linc arferol***